TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# ALMAENEG

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# MANYLEB

Addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2017 (UG)
I'w ddyfarnu o 2018 (Safon Uwch)

Fersiwn 3 Rhagfyr 2019



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad. | 27 |
| 3 | O gyfres haf 2020 ymlaen, bydd hyd arholiad ysgrifenedig Uned 4 (gwrando, darllen a chyfieithu) yn cynyddu i 2 awr.<br><br>Newidiwyd adran 3.2 i egluro'r canlynol:<br><br>• o gyfres haf 2021 ymlaen, bydd nifer y cardiau yn asesiad di-arholiad Uned 1 yn newid o bedwar ar ddeg (14) i naw (9)<br><br>• o gyfres haf 2022 ymlaen, y canolfannau fydd yn cynnal yr asesiadau Uned 1, ac yn anfon recordiadau digidol at yr arholwyr<br><br>• o gyfres haf 2023 ymlaen, y canolfannau fydd yn cynnal yr asesiadau Uned 1 a'r asesiadau Uned 3, ac yn anfon recordiadau digidol at yr arholwyr. | 3 a 17<br><br><br><br>22<br><br><br>21<br><br><br>21 |

# TAG UG a SAFON UWCH CBAC mewn ALMAENEG

## I'w addysgu o 2016
## UG i'w ddyfarnu o 2017
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | **2** |
| 1. | **Rhagarweiniad** | **5** |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 6 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 6 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 7 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 7 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | **8** |
| | 2.1 Unedau UG | 10 |
| | 2.2 Unedau U2 | 14 |
| 3. | **Asesu** | **20** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 20 |
| | 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad | 21 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | **27** |
| | 4.1 Cofrestru | 27 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 28 |
| **Atodiad A:** Cynnwys gramadegol | | 29 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a Safon Uwch mewn ALMAENEG (Cymru)

# CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 5 uned, 2 uned UG a 3 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod wedi'i gyfleu yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

## UG (2 uned)

**UG Uned 1: Siarad**
**Asesiad di-arholiad: 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud)**
**12% o'r cymhwyster** **48 marc**

**Tasg 1**
Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig (5-6 munud)

**Tasg 2**
Trafodaeth yn seiliedig ar ail gerdyn ysgogi ysgrifenedig (7-9 munud)

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

**UG Uned 2: Gwrando, darllen, cyfieithu ac ymateb beirniadol ysgrifenedig**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud**
**28% o'r cymhwyster** **84 marc**

**Adran A:** Gwrando
**Adran B:** Darllen
**Adran C:** Cyfieithu – o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg
**Adran Ch:** Ymateb beirniadol ysgrifenedig

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

© WJEC CBAC Ltd.

## Safon Uwch (yr uchod a 3 uned arall)

**U2 Uned 3: Siarad**
**Asesiad di-arholiad: 11-12 munud**
**18% o'r cymhwyster** **72 marc**

**Project Ymchwil Annibynnol**
(a) Cyflwyno project ymchwil annibynnol (2 funud)
(b) Trafodaeth ar gynnwys y project ymchwil annibynnol (9-10 munud)

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

**U2 Uned 4: Gwrando, darllen a chyfieithu**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**30% o'r cymhwyster** **100 marc**

**Adran A:** Gwrando
**Adran B:** Darllen
**Adran C:** Cyfieithu – o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

**U2 Uned 5: Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig (llyfr caeedig)**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**12% o'r cymhwyster** **40 marc**

Un cwestiwn traethawd – yn seiliedig ar astudio **un** gwaith llenyddol oddi ar y rhestr osod

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron na thestunau mewn unrhyw ran o'r asesiad.**

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1, Uned 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Uned 3, Uned 4 ac Uned 5 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

**Rhif Cymhwyster**
**ar restr The Register:**
**TAG UG: 603/0286/0**
**TAG Safon Uwch: 603/0281/1**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau**
**Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0796/8**
**TAG Safon Uwch: C00/0796/5**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH ALMAENEG

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae manyleb UG a Safon Uwch Almaeneg CBAC yn cynnig cyfle diddorol a chyffrous i ddysgwyr adeiladu ar eu hastudiaeth flaenorol o Almaeneg.  Drwy themâu cymdeithasol, deallusol a diwylliannol bydd dysgwyr yn gallu datblygu eu gwybodaeth ieithyddol a'u dealltwriaeth ddiwylliannol o'r gwledydd neu gymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad.  Bydd cyfle i astudio llenyddiaeth a ffilm yn caniatáu i ddysgwyr wneud dadansoddiad dyfnach o strwythurau iaith a chynyddu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol fel rhan o ymagwedd integredig at ddysgu iaith. Rhoddir ffocws cryf ar feithrin hyder a rhuglder dysgwyr wrth siarad Almaeneg gan ddefnyddio themâu perthnasol ac amserol. Nod y gofyniad i ymchwilio i faes sydd o ddiddordeb personol sy'n gysylltiedig â'r wlad neu'r gwledydd lle mae'r iaith astudio yn cael ei siarad yw gwella gwerthfawrogiad diwylliannol y dysgwyr a'u galluogi i feithrin ymwybyddiaeth well o wahaniaethau rhwng diwylliannau.

Mae manyleb TAG UG a Safon Uwch Almaeneg CBAC yn annog dysgwyr i:

- wella eu sgiliau ieithyddol ac i feithrin a datblygu eu gallu i feddwl yn feirniadol ar sail eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iaith, diwylliant a chymdeithas y gwledydd neu'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad
- datblygu rheolaeth o'r system iaith i gyfleu ystyr, gan ddefnyddio sgiliau siarad ac ysgrifennu, gan gynnwys amrywiaeth estynedig o eirfa, at bwrpasau ymarferol a deallusol ac i ddod yn ddefnyddwyr cynyddol hyderus, cywir ac annibynnol o'r iaith
- datblygu eu gallu i ryngweithio'n effeithiol â defnyddwyr yr iaith wrth siarad ac ysgrifennu, gan gynnwys drwy gyfryngau ar-lein
- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith, gan gynnwys strategaethau cyfathrebu i gynnal y cyfathrebu a gwella rhuglder a hyder
- ymwneud yn feirniadol â thestunau, ffilmiau a deunyddiau eraill sy'n ddeallusol ysgogol yn yr iaith wreiddiol, datblygu gwerthfawrogiad o ddefnyddiau soffistigedig a chreadigol o'r iaith a'u deall o fewn eu cyd-destun diwylliannol a chymdeithasol
- datblygu gwybodaeth am faterion sy'n ganolog i gymdeithas a diwylliant, ddoe a heddiw, y gwledydd neu'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad
- cyfryngu rhwng diwylliannau a rhwng siaradwyr yr iaith a siaradwyr Cymraeg/Saesneg
- meithrin eu gallu i ddysgu ieithoedd eraill
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy fel ymreolaeth, dyfeisgarwch, creadigedd, meddwl yn feirniadol, a hyblygrwydd ieithyddol, diwylliannol a gwybyddol a fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag astudiaeth bellach neu gael cyflogaeth
- datblygu eu gallu i feddwl yn feirniadol a dadansoddol drwy'r iaith astudio
- datblygu fel ymchwilwyr annibynnol drwy'r iaith astudio.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn ystod TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Almaeneg neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC):*Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r fanyleb TAG UG a Safon Uwch hon yn cynnig cipolwg cyfoethog a chynhwysfawr i ddysgwyr ar ffabrig cymdeithasol a diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig y gwledydd a'r cymunedau lle mae Almaeneg yn cael ei siarad.

Mae cynnwys y fanyleb yn ymdrin â dau brif faes o ddiddordeb:

i. materion a thueddiadau cymdeithasol
ii. diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig.

O dan y ddau faes hyn o ddiddordeb dewiswyd pedair thema i gynnig profiad dysgu helaeth a pherthnasol i ddysgwyr. Caiff y pedair thema hyn yn eu tro eu rhannu'n is-themâu.

| **Maes o ddiddordeb (i)**<br>**Materion a thueddiadau cymdeithasol** | **Maes o ddiddordeb (ii)**<br>**Diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig** |
|---|---|
| **Thema 1: (UG)**<br>**Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith**<br>• Strwythurau teuluol, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch / perthnasoedd<br>• Tueddiadau, materion a hunaniaeth bersonol ymysg yr ifanc<br>• Cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth | **Thema 2: (UG)**<br>**Deall y byd Almaeneg ei iaith**<br>• Diwylliant a threftadaeth rhanbarthol yn yr Almaen ac mewn gwledydd a chymunedau Almaeneg eu hiaith<br>• Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Almaeneg ei iaith |
| **Thema 3: (Safon Uwch)**<br>**Amrywiaeth a gwahaniaeth**<br>• Mudo ac integreiddio<br>• Hunaniaeth ddiwylliannol ac ymyleiddio<br>• Cyfoethogi diwylliannol a dathlu gwahaniaeth<br>• Gwahaniaethu ac amrywiaeth | **Thema 4: (Safon Uwch)**<br>**Creu'r Almaen Fodern: 1989 ymlaen**<br>• Y broses ailuno gychwynnol a dilynol<br>• Cydlyniant cymdeithasol yn yr Almaen heddiw<br>• Mudiadau artistig a gwleidyddol<br>• Effaith economaidd yr Almaen unedig |

Ar gyfer meysydd o ddiddordeb i a ii, caiff Themâu 1 a 2 eu hastudio ar gyfer UG a Themâu 3 a 4 ar gyfer Safon Uwch.

Y themâu *Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith* ac *Amrywiaeth a gwahaniaeth* yw'r rhai sy'n taro tant â bywydau pobl ifanc heddiw gan alluogi'r dysgwr i uniaethu â materion a dyfnhau eu gwybodaeth o'r modd y maent yn effeithio ar y gwledydd neu'r cymunedau lle mae Almaeneg yn cael ei siarad. Mae *Deall y byd Almaeneg ei iaith* yn gyfle i ddysgwyr ymdrwytho yn niwylliant a threftadaeth yr Almaen a'r gwledydd a chymunedau Almaeneg eu hiaith. Mae'r bedwaredd thema *Creu'r Almaen Fodern: 1989 ymlaen* yn cyflwyno dysgwyr i thema benodol i wlad sy'n canolbwyntio ar gyfnod allweddol yn hanes yr Almaen, gan gynnwys digwyddiadau o bwys yn y diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig, sydd wedi helpu i lunio'r wlad fel y mae heddiw. Mae hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu ac adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad diwylliannol drwy ddefnyddio ffynonellau llafar ac ysgrifenedig dilys mewn cwrs astudio ysgogol.

© WJEC CBAC Ltd.

Tra'n astudio'r meysydd hyn o ddiddordeb a themâu cysylltiedig bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwledydd neu'r cymunedau Almaeneg eu hiaith drwy siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Gall y themâu fod yn gysylltiedig ag unrhyw wlad neu gymuned lle mae Almaeneg yn cael ei defnyddio fel yr iaith lafar.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys cyfanswm o bump uned: dwy ar gyfer UG a thair ar gyfer Safon Uwch. Mae Unedau 1 (UG) a 3 (Safon Uwch) yn asesiadau siarad; mae Uned 2 (UG) yn arholiad sy'n cyfuno gwrando, darllen, cyfieithu ac ysgrifennu beirniadol; mae Uned 4 (Safon Uwch) yn arholiad gwrando, darllen a chyfieithu. Mae Uned 5 (Safon Uwch) yn arholiad ysgrifenedig beirniadol a dadansoddol.

Ar gyfer Uned 2, bydd angen i ddysgwyr astudio **un** ffilm, ac ar gyfer Uned 5, **un** testun llenyddol, o'r rhestr o weithiau gosod.

Mae'r rhestr o weithiau gosod ar dudalennau 13 (ffilm) a 19 (llenyddiaeth) o'r fanyleb hon.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.1 UNEDAU UG

**Uned 1: Siarad**
**Asesiad di-arholiad: 12-15 munud (ynghyd ag amser paratoi ychwanegol o 15 munud)**
**12% o'r cymhwyster**
**48 marc**

Bydd yr asesiad siarad yn para 12-15 munud i gyd. Hefyd, cyn dechrau ar yr asesiad bydd gan ymgeiswyr 15 munud o amser paratoi.

Bydd yr ymgeisydd yn dewis dau gerdyn ysgogi, un o set A ac un o set B, ar ddechrau'r cyfnod paratoi. Bydd y deunydd ysgogi yn Almaeneg. Bydd cardiau o Set A yn seiliedig ar y thema Deall y byd Almaeneg ei iaith. Bydd cardiau o Set B yn seiliedig ar y thema Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith.

Gweler adran 3.2 am fanylion llawn yr asesiad siarad.

**Tasg 1**
Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig (5-6 munud)

**Tasg 2**
Trafodaeth yn seiliedig ar ail gerdyn ysgogi ysgrifenedig gyda thri chwestiwn (7-9 munud)

Gall yr ymgeisydd ddewis ym mha drefn y mae'n bwriadu ceisio cyflawni'r tasgau.

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

Yn Uned 1 bydd gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio'r sgiliau canlynol:

- defnyddio iaith yn fyrfyfyr i gychwyn cyfathrebu; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi syniadau a theimladau; cyflwyno safbwyntiau; datblygu dadleuon; perswadio; a dadansoddi a gwerthuso wrth siarad, gan gynnwys rhyngweithio â siaradwyr yr iaith
- cymhwyso gwybodaeth am ynganu, morffoleg a chystrawen, geirfa ac idiom i gyfathrebu'n gywir ac ystyrlon, gan ddefnyddio amrywiaeth o fynegiant – gan gynnwys y gofynion gramadegol a amlinellir yn Atodiad A
- defnyddio sgiliau a strategaethau dysgu iaith, gan gynnwys strategaethau cyfathrebu fel addasu'r neges, cylchymadroddi, hunangywiro a strategaethau atgyweirio.

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 2: Gwrando, darllen, cyfieithu ac ymateb beirniadol ysgrifenedig**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud**
**28% o'r cymhwyster**
**84 marc**

Bydd y deunydd ysgogi yn Almaeneg, yn seiliedig ar y ddwy thema UG o dan y meysydd o ddiddordeb: **materion a thueddiadau cymdeithasol** a **diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig.**

Bydd pedair adran:

**Adran A: Gwrando**
Gall y mathau o gwestiynau gynnwys datganiadau cywir/anghywir, aml-ddewis a chwestiynau llenwi'r bwlch.

**Adran B: Darllen**
Gall y cwestiynau gynnwys aml-ddewis, cwestiynau llenwi'r bwlch, crynodeb a chwestiynau ac atebion.

**Adran C: Cyfieithiad**
Darn neu ddarnau nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg (o leiaf 70 gair).

**Adran Ch: Ymateb beirniadol ysgrifenedig**
Mae gofyn i ymgeiswyr ysgrifennu un traethawd tua 300 gair ar y ffilm y maent wedi'i hastudio o'r rhestr osod (gweler tudalen 13).
Bydd yr ateb hwn yn gofyn am ymateb beirniadol manwl yn Almaeneg i agwedd neu agweddau ar y ffilm a astudiwyd.

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

Yn Uned 2 bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu gallu o ran y sgiliau canlynol:

- gwrando ac ymateb i ddarnau llafar gan gynnwys rhai darnau estynedig o amrywiaeth o gyd-destunau a ffynonellau gwahanol, wedi'u haddasu fel y bo angen, sy'n ymdrin â chyweiriau a mathau gwahanol, gan gynnwys cyfathrebu dilys sy'n cynnwys un neu fwy o siaradwyr
- darllen ac ymateb i amrywiaeth o destunau gan gynnwys rhai testunau estynedig wedi'u hysgrifennu at bwrpasau a chynulleidfaoedd gwahanol o amrywiaeth o ffynonellau dilys, gan gynnwys testunau cyfoes, hanesyddol a llenyddol, ffuglennol a ffeithiol, wedi'u haddasu fel y bo angen
- deall y prif bwyntiau, swm a sylwedd yr ystyr a'r manylion o ddeunydd llafar ac ysgrifenedig
- deall yr ystyr o ddeunydd llafar ac ysgrifenedig cymhleth, gan gynnwys cynnwys ffeithiol a haniaethol
- cymathu a defnyddio gwybodaeth o ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, gan gynnwys deunydd o gyfryngau ar-lein
- crynhoi gwybodaeth o ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, adrodd ar bwyntiau allweddol a chynnwys mewn testun llafar ac ysgrifenedig
- cyfieithu darn neu ddarnau nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen o'r Almaeneg i'r Gymraeg/Saesneg.

© WJEC CBAC Ltd.

**Astudio'r ffilm**

Ar gyfer Uned 2 Adran Ch, cynigir set o bedair brif ffilm ddilys a ddewiswyd yn ofalus yn Almaeneg i'w hastudio yn y fanyleb hon. Mae'r ffilmiau yn y rhestr osod yn adlewyrchu elfennau diwylliannol a llenyddol yn natblygiad y gwledydd/cymunedau Almaeneg eu hiaith. Drwy astudio'r ffilm a ddewisir, bydd y dysgwyr yn:

- datblygu dealltwriaeth fanwl o'r ffilm a ddewiswyd yn Almaeneg
- meithrin y sgiliau i werthfawrogi a dadansoddi'r ffilm
- dangos gwerthfawrogiad o'r cysyniadau a'r materion yr ymdriniwyd â nhw
- gallu ymateb yn feirniadol yn ysgrifenedig i'r ffilm yn Almaeneg
- gallu rhoi ymateb beirniadol i agweddau fel strwythur y plot, cymeriadaeth, a'r defnydd o ddelweddaeth neu nodweddion arddulliadol eraill, fel y bo'n briodol i'r ffilm a astudir
- ymwneud yn feirniadol â ffilmiau ysgogol yn Almaeneg, datblygu gwerthfawrogiad o ddeunyddiau soffistigedig a chreadigol yr iaith a'u deall o fewn eu cyd-destun diwylliannol a chymdeithasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Gweithiau gosod ar gyfer UG**

Mae pedair ffilm ar gael i'w hastudio ar gyfer UG. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr astudio **un** yn unig.

| Gweithiau: Ffilm | |
|---|---|
| **1.** | **Til Schweiger:** ***Barfuss***<br>Prif ffilm (2005) |
| **2.** | **Hüseyin Tabak:** ***Das Pferd auf dem Balkon***<br>Prif ffilm (2012) |
| **3.** | **Bettina Blümner:** ***Scherbenpark***<br>Prif ffilm (2013) |
| **4.** | **Benjamin Quabeck:** ***Nichts bereuen***<br>Prif ffilm (2001) |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UNEDAU U2

**Uned 3: Siarad**
**Asesiad di-arholiad: 11-12 munud**
**18% o'r cymhwyster**
**72 marc**

Bydd yr asesiad siarad yn para 11-12 munud i gyd a bydd yn cynnwys un dasg.

Gweler adran 3.2 am fanylion llawn yr asesiad siarad.

**Tasg – Project ymchwil annibynnol**

Rhennir yr aseiniad hwn yn ddwy ran, (a) a (b).

**(a)** **Cyflwyno project ymchwil annibynnol (2 funud)**
2 funud ar gyfer cyflwyniad llafar di-dor yr ymgeisydd o'r project ymchwil.

**(b)** **Trafodaeth ar broject ymchwil annibynnol (9-10 munud)**
Trafodaeth 9-10 munud ar y project ymchwil. Dylai'r drafodaeth hon ganolbwyntio ar gynnwys y gwaith ymchwil, nid y broses.

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

**Y project ymchwil annibynnol**

Mae Uned 3, yr asesiad siarad ar gyfer Safon Uwch, yn cynnwys y project ymchwil annibynnol. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddewis maes o ddiddordeb personol i'w astudio'n annibynnol lle y cânt eu hannog i ehangu eu gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad o'r gwledydd neu'r cymunedau Almaeneg eu hiaith. Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddewis agwedd i'w hastudio sydd o ddiddordeb iddynt sy'n ymwneud â'r gwledydd neu'r cymunedau Almaeneg eu hiaith. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal y project ymchwil yn annibynnol er mwyn datblygu'r sgiliau a restrir isod. Mae'n bwysig bod canolfannau'n rhoi arweiniad i ddysgwyr pan fyddant yn dewis pwnc ar gyfer y project ymchwil annibynnol a'u bod yn eu cyfeirio at yr amcanion asesu sy'n berthnasol i'r asesiad di-arholiad.

**Ar gyfer y project ymchwil annibynnol, gall dysgwyr ddewis pwnc sy'n gysylltiedig ag un o'r themâu neu ag un o'r gweithiau gosod llenyddol neu'r ffilmiau. Fodd bynnag, ni chaniateir i ddysgwyr seilio eu project ymchwil annibynnol ar yr un testun llenyddol neu ffilm y cyfeiriwyd ato yn eu hasesiad ysgrifenedig (e.e. Uned 2 UG ac Uned 5 Safon Uwch). Fel arall, gall y dysgwyr ddewis pwnc sydd y tu allan i'r gweithiau llenyddol, ffilmiau a themâu'r fanyleb.**

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd y project ymchwil annibynnol yn galluogi dysgwyr i:

- datblygu sgiliau ymchwil yn Almaeneg
- dangos y gallu i gychwyn a chynnal ymchwil unigol ar bwnc sydd o ddiddordeb personol sy'n ymwneud â'r gwledydd neu'r cymunedau Almaeneg eu hiaith
- nodi cwestiwn allweddol neu bwnc o ddiddordeb
- dewis gwybodaeth berthnasol yn Almaeneg o amrywiaeth o ffynonellau dilys gan gynnwys y rhyngrwyd
- defnyddio gwybodaeth i gyfleu adnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r pwnc ymchwil
- dadansoddi a chrynhoi canfyddiadau ymchwil
- ymhelaethu ar bwyntiau allweddol o ddiddordeb fel y bo'n briodol drwy gyflwyniad llafar a thrafodaeth.

Hyd y gellir dylai ymgeiswyr mewn unrhyw ganolfan ddewis pynciau hollol wahanol ar gyfer y project ymchwil annibynnol. Fodd bynnag, os bydd mwy nag un ymgeisydd yn yr un ganolfan yn dewis yr un pwnc, **rhaid** i'r cynnwys, y dull a'r modd y cyflwynir y project ymchwil annibynnol **fod yn bendant yn wahanol** i waith unrhyw ymgeisydd arall ar yr un pwnc.

Yn ystod yr asesiad siarad bydd disgwyl i ymgeiswyr ddefnyddio'r sgiliau canlynol:

- defnyddio iaith yn fyrfyfyr i gychwyn cyfathrebu; gofyn ac ateb cwestiynau; mynegi syniadau a theimladau; cyflwyno safbwyntiau; datblygu dadleuon; perswadio; a dadansoddi a gwerthuso wrth siarad, gan gynnwys rhyngweithio â siaradwyr yr iaith
- cymhwyso gwybodaeth am ynganu, morffoleg a chystrawen, geirfa ac idiom i gyfathrebu'n gywir ac yn rhesymegol, gan ddefnyddio amrywiaeth o fynegiant – gan gynnwys y gofynion gramadegol a amlinellir yn Atodiad A
- defnyddio sgiliau a strategaethau dysgu iaith, gan gynnwys strategaethau cyfathrebu fel addasu'r neges, cylchymadroddi, hunangywiro a strategaethau atgyweirio.

**Enghreifftiau o brojectau ymchwil annibynnol**

Awgrymiadau yn unig yw'r meysydd canlynol o ddiddordeb ar gyfer y project ymchwil annibynnol: ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol.

- Thema/themâu o destun llenyddol neu ffilm na astudiwyd ar gyfer yr asesiad ysgrifenedig
- Wie ist der Erfolg der Afd in Deutschland zu erklären?
- Wie gehen die Deutschen mit ihrer Vergangenheit um?
- Welche Rolle spielt der Islam in Deutschland?
- Wie hat sich Deutschland durch die hohe Zahl der Flüchtlinge verändert?
- Wie international sind die Deutschen?
- Wie hat sich das Bildungssystem durch die Einführung des Zentralabiturs in einigen Bundesländern Verändert?

Ar ôl y cyflwyniad dau funud, bydd arholwyr yn gofyn cwestiynau yn Almaeneg a fydd yn galluogi ymgeiswyr i arddangos y sgiliau sydd wedi'u hamlinellu uchod. Bydd y cwestiynau'n benagored er mwyn atal yr ymgeisydd rhag defnyddio deunydd sydd wedi'i ddysgu o flaen llaw.

© WJEC CBAC Ltd.

Gall y mathau o gwestiynau gynnwys:

- "Beth wnaeth i chi ddewis...?"
- "Rhowch enghraifft o..."
- "Beth yw eich rhesymau dros...?"
- "Beth yw eich teimladau am...?"
- "Mae gennyf safbwynt gwahanol... ?"
- "Dywedwch fwy wrthyf am... ?"
- "Beth yw'r gwahaniaethau/tebygrwydd rhwng... ?"

Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r project ymchwil annibynnol, mae'n bosibl o hyd cysylltu â'r Swyddog Pwnc yn CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 4: Gwrando, darllen a chyfieithu**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**30% o'r cymhwyster**
**100 marc**

Bydd y deunydd ysgogi yn Almaeneg yn seiliedig ar y ddwy thema ar gyfer Safon Uwch o dan y meysydd o ddiddordeb**: materion a thueddiadau cymdeithasol** a **diwylliant gwleidyddol, deallusol ac artistig.**

**Adran A: Gwrando**
Cwestiynau a all gynnwys datganiadau cywir/anghywir, aml-ddewis, llenwi'r bwlch, crynodeb, cwestiynau ac atebion a chwestiynau gwrando a deall yn Almaeneg.

**Adran B: Darllen**
Cwestiynau'n seiliedig ar destunau a ddarperir mewn ffolder darllen atodol a all gynnwys datganiadau cywir/anghywir, aml-ddewis, cwestiynau llenwi'r bwlch, crynodeb a chwestiynau ac atebion darllen a deall yn Almaeneg.

**Adran C: Cyfieithu**
Darn neu ddarnau nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg (o leiaf 100 o eiriau).

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron yn unrhyw ran o'r asesiad.**

Yn Uned 4 bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu gallu o ran y sgiliau canlynol:

- gwrando ac ymateb i ddarnau llafar gan gynnwys rhai darnau estynedig o amrywiaeth o gyd-destunau a ffynonellau gwahanol, wedi'u haddasu fel y bo angen, sy'n ymdrin â chyweiriau a mathau gwahanol, gan gynnwys cyfathrebu dilys sy'n cynnwys un neu fwy o siaradwyr
- darllen ac ymateb i amrywiaeth o destunau gan gynnwys rhai testunau estynedig wedi'u hysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol o amrywiaeth o ffynonellau dilys, gan gynnwys testunau cyfoes, hanesyddol a llenyddol, ffuglennol a ffeithiol, wedi'u haddasu fel y bo angen
- deall y prif bwyntiau, swm a sylwedd yr ystyr a'r manylion o ddeunydd llafar ac ysgrifenedig
- deall yr ystyr o ddeunydd llafar ac ysgrifenedig cymhleth, gan gynnwys cynnwys ffeithiol a haniaethol
- cymathu a defnyddio gwybodaeth o ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, gan gynnwys deunydd o gyfryngau ar-lein
- crynhoi gwybodaeth o ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, adrodd ar bwyntiau allweddol a chynnwys mewn testun llafar ac ysgrifenedig
- cyfieithu darn neu ddarnau nad ydynt wedi'u gweld o'r blaen o'r Gymraeg/Saesneg i'r Almaeneg.

© WJEC CBAC Ltd.

| **Uned 5: Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig (llyfr caeedig)**<br>**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**<br>**12% o'r cymhwyster**<br>**40 marc** |
|---|
| **Ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig:**<br><br>Bydd ymgeiswyr yn cwblhau un dasg ar y gwaith llenyddol a astudiwyd:<br><br>**Tasg** – Cynhyrchu ymateb beirniadol a dadansoddol ysgrifenedig, mewn tua 400 gair, i gwestiwn ar y gwaith llenyddol a astudiwyd wedi'i gymryd o'r rhestr osod.<br><br>Bydd gan ymgeiswyr ddewis o ddau gwestiwn.<br><br>**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron na thestunau mewn unrhyw ran o'r asesiad.** |

## Astudio'r gwaith llenyddol

Cynigir set o weithiau dilys a ddewiswyd yn ofalus yn Almaeneg i'w hastudio yn y fanyleb hon. Mae cynnig dewis o bedwar gwaith llenyddol yn darparu ffynhonnell y gellir dewis ohoni. Mae'r gweithiau'n adlewyrchu elfennau diwylliannol a llenyddol yn natblygiad y gwledydd/cymunedau Almaeneg eu hiaith. Drwy astudio'r gwaith o'u dewis o'r rhestr osod yn y fanyleb, bydd y dysgwr yn:

- datblygu dealltwriaeth fanwl o'r gweithiau yn Almaeneg
- meithrin y sgiliau i werthfawrogi a dadansoddi'r gweithiau
- dangos gwerthfawrogiad beirniadol o'r cysyniadau a'r materion yr ymdriniwyd â nhw
- gallu ymateb yn feirniadol ac yn ddadansoddol yn ysgrifenedig i'r gweithiau yn Almaeneg
- gallu rhoi ymateb beirniadol a dadansoddol i nodweddion fel ffurf a thechneg gyflwyno'r gwaith fel y bo'n briodol i'r gweithiau a astudiwyd
- ymwneud yn feirniadol â gweithiau ysgogol yn Almaeneg, datblygu gwerthfawrogiad o ddefnyddiau soffistigedig a chreadigol o'r iaith a'u deall o fewn eu cyd-destun diwylliannol a chymdeithasol.

Gan fod hwn yn arholiad llyfr caeedig, gall canolfannau ddefnyddio unrhyw rifyn o'r gweithiau gosod.

© WJEC CBAC Ltd.

**Gweithiau gosod ar gyfer Safon Uwch**

Mae pedwar gwaith llenyddol ar gael i'w hastudio ar gyfer Safon Uwch. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr astudio **un** yn unig.

| **Gweithiau: Llenyddiaeth** | |
|---|---|
| **1.** | **Bertold Brecht:** ***Der gute Mensch von Seuzan***<br>Drama (1943) |
| **2.** | **Friederich Dürrenmatt:** ***Die Physiker***<br>Drama (1962) |
| **3.** | **Dirk Kurbjuweit:** ***Zweier ohne***<br>Nofel (2001) |
| **4.** | **Siegfried Lenz:** ***Das Fundbüro***<br>Nofel (2003) |

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1 (UG/Safon Uwch)**
Deall ac ymateb:

- ar lafar i iaith lafar gan gynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb;
- yn ysgrifenedig i iaith lafar sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau

**AA2 (UG/Safon Uwch)**
Deall ac ymateb:

- ar lafar i iaith ysgrifenedig sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau;
- yn ysgrifenedig i iaith ysgrifenedig sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau

**AA3 (UG/Safon Uwch)**
Defnyddio'r iaith yn gywir, ar ffurf lafar a ffurf ysgrifenedig, gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfaoedd a strwythur

**AA4 (UG yn unig)**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau gwahanol ar ddiwylliant a chymdeithas gwledydd/cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad.

**AA4 (Safon Uwch yn unig)**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau gwahanol ar ddiwylliant a chymdeithas gwledydd/cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad ac ymateb yn feirniadol ac yn ddadansoddol iddynt

Dangosir amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 2% | 2% | 4% | 4% | 12% |
| **UG Uned 2** | 6% | 10% | 8% | 4% | 28% |
| **U2 Uned 3** | 3% | 3% | 6% | 6% | 18% |
| **U2 Uned 4** | 9% | 15% | 6% | - | 30% |
| **U2 Uned 5** | - | - | 6% | 6% | 12% |
| **Pwysoli Cyffredinol** | 20% | 30% | 30% | 20% | 100% |

© WJEC CBAC Ltd.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Mae asesu di-arholiad yn cyfrif am 30% o'r cymhwyster TAG hwn; UG 12% a Safon Uwch 18%. Canllawiau cyffredinol yw'r canlynol ar gyfer cynnal Unedau 1 a 3: Siarad. Rhaid cynnal pob asesiad di-arholiad o dan amodau rheoledig fel y nodir isod, ac yn unol â gofynion rheoleiddiol.

**Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio geiriaduron mewn unrhyw ran o'r asesiad.**

**Gosod tasgau a fformat yr asesiad**

**Cyffredinol (Uned 1 UG ac Uned 3 Safon Uwch)**

**Amseru a marcio**

Hyd at gyfres arholiadau 2021/22 arholwr ymweld a benodir gan CBAC[1] fydd yn cynnal ac yn asesu'r asesiadau siarad. Bydd ef/hi yn cynnal ac yn marcio'r asesiad a gaiff ei recordio'n ddigidol.

Cynhelir yr asesiadau siarad yn ystod cyfnod o bum wythnos rhwng Ebrill a Mai. Bydd yr arholwr ymweld yn cysylltu â chanolfannau yn uniongyrchol i drefnu ymweliad i gynnal yr asesiad. Bydd yr arholwr ymweld yn ystyried dyddiadau gwyliau ysgol yn ystod y cyfnod hwn wrth drefnu ymweliad. Fodd bynnag, dylai canolfannau gofio y bydd gan yr arholwr ymweld lawer o ganolfannau i'w harholi ac er mwyn helpu'r arholwr a bod yn deg â phawb, rhaid i ganolfannau fod yn hyblyg gyda dyddiadau.

**Cynnal yr asesiadau**

Dim ond **un ymgais** a gaiff yr ymgeiswyr ym mhob asesiad siarad. Yr unig amgylchiadau lle y gall ymgeisydd gael ei ailbrofi yw os ceir nam technegol yn ystod yr asesiad (fel nad yw'r asesiad, er enghraifft, wedi cael ei recordio neu nad yw'n glywadwy) neu rywbeth sy'n digwydd sydd y tu hwnt i reolaeth yr arholwr sy'n ei atal rhag cwblhau'r asesiad. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid i'r arholwr ymweld hysbysu CBAC ar unwaith a hysbysu'r swyddog arholiadau yn y ganolfan.

Nodir recordiadau sain yn hytrach na recordiadau fideo oherwydd dim ond rhugldеr yr ymgeiswyr yn yr iaith a asesir (yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r themâu), nid eu sgiliau cyflwyno.

Bydd yr arholwr ymweld sy'n cynnal yr asesiadau yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â'r holl ymgeiswyr mewn grŵp cyn yr asesiadau unigol, er mwyn eu gwneud yn gartrefol. Bydd ef/hi yn cyflwyno ei hun, yn siarad ychydig yn Almaeneg er mwyn i'r ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'i lais/llais, yn cael sgwrs anffurfiol â nhw ac yn ateb unrhyw gwestiynau rhagarweiniol a allai godi.

Bydd angen i ganolfannau gadw cofnod o'r amserlen arholi gan gynnwys dyddiadau pan gynhelir yr asesiad. Bydd y trefniadau yn destun arolygiadau y Cyd-Gyngor Cymwysterau.

---

[1]O gyfres haf 2022 ymlaen, y canolfannau fydd yn cynnal yr asesiadau Uned 1, ac yn anfon recordiadau digidol at yr arholwyr. O gyfres haf 2023 ymlaen, y canolfannau fydd yn cynnal yr asesiadau Uned 1 a'r asesiadau Uned 3, ac yn anfon recordiadau digidol at yr arholwyr.

Maes o law, bydd cyfeiriadau at *'yr arholwr ymweld'* yn y fanyleb hon yn newid i gyfeirio at *'yr athro arholwr'.* Bydd hyn yn digwydd wrth ddiweddaru adran 3.2 a'r ffurflen Project Ymchwil Annibynnol Uned 3 yn barod at asesiadau 2022/23.

© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 1 – UG

### Fformat tasgau a gosod tasgau

Mae'r asesiad siarad yn cynnwys dwy set o gardiau ysgogi – Setiau A a B. Mae cardiau Set A (dadl) yn seiliedig ar y thema Deall y byd Almaeneg ei iaith. Mae cardiau Set B (trafodaeth) yn seiliedig ar y thema Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith. Gall ymgeiswyr ragddewis is-thema o'r thema Deall y byd Almaeneg ei iaith cyn yr arholiad siarad. Bydd yr arholwr yn dod â set llawn o gardiau gydag ef i'r ganolfan. CBAC fydd yn gosod y tasgau. Noder, o haf 2021 ymlaen bydd cyfanswm y cardiau yn y set yn gostwng o bedwar ar ddeg (14) i naw (9). Ond, bydd y set o naw yn dal i ymdrin â holl is-themâu cynnwys y pwnc.

Bydd ymgeiswyr yn cael gweld dau gerdyn allan o dri posibl o Set A (dadl), yn seiliedig ar yr is-thema maent wedi'i dewis o flaen llaw. Yr arholwr fydd yn penderfynu pa ddau gerdyn i'w dangos i'r ymgeisydd. Bydd gofyn iddynt ddewis un allan o'r ddau a ddangosir. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddewis un cerdyn o Set B (trafodaeth) o ddewis o dri. Ni chaniateir i'r ymgeiswyr weld y cardiau o Set B cyn gwneud eu penderfyniad. Gall yr ymgeisydd ddewis pa gerdyn i'w ddefnyddio i ddechrau'r asesiad, unai Set A (dadl) ar Ddeall y byd Almaeneg ei iaith neu Set B (trafodaeth) ar Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith.

### Cerdyn ysgogi Set A (dadl). Deall y byd Almaeneg ei iaith (5–6 munud)

Dadlau safbwynt yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig
Bydd y cerdyn yn cynnwys ysgogiad yn Almaeneg gyda dau safbwynt croes yn seiliedig ar un allan o'r ddwy is-thema o'r thema Deall y byd Almaeneg ei iaith.

- Diwylliant a threftadaeth rhanbarthol yn yr Almaen ac mewn gwledydd a chymunedau Almaeneg eu hiaith
- Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Almaeneg ei iaith

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddweud wrth yr arholwr, cyn iddynt ddechrau'r asesiad ar gerdyn Set A, pa safbwynt maent wedi dewis ei ddadlau. Bydd yr arholwr yn dadlau'r safbwynt gwrthwynebol fel yr amlinellir ar y cerdyn a bydd yn gwneud hynny er mwyn ennyn yr ymateb gorau posibl gan yr ymgeisydd. Dylai'r ymgeisydd gofio nad oes safbwynt cywir nac anghywir ar gyfer pwrpas yr asesiad.

### Cerdyn ysgogi Set B (trafodaeth). Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Almaeneg ei hiaith (7-9 munud)

Trafodaeth yn seiliedig ar gerdyn ysgogi ysgrifenedig
Mae'r cerdyn yn cynnwys testun byr a tri chwestiwn yn Almaeneg y bydd yr ymgeisydd yn paratoi atebion ar eu cyfer. Bydd yr arholwr yn gofyn tri chwestiwn i'r ymgeisydd yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y cerdyn ysgogi. Mae'r cwestiynau'n rhoi sylfaen i ysgogi trafodaeth ar y thema a gyflwynir. Ar ôl i'r ymgeisydd ymateb i dri chwestiwn nad yw wedi'u gweld o'r blaen bydd yr arholwr yn archwilio pwyntiau eraill sy'n gysylltiedig â'r thema ac yn ailafael ar bwyntiau a gododd yr ymgeisydd yn ystod y drafodaeth. Bydd yr ymgeisydd yn parhau i drafod â'r arholwr, gan ymateb i gwestiynau pellach sy'n gysylltiedig â nhw.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cyflawni tasgau**

Ar y diwrnod(au) pan gynhelir yr asesiad, bydd gan bob ymgeisydd amser paratoi o bymtheg munud a fydd yn cael ei oruchwylio. Pan fydd yr ymgeisydd wedi dewis y ddau gerdyn bydd ef/hi yn penderfynu pa gerdyn i'w wneud yn gyntaf gyda'r arholwr ac yn defnyddio'r amser i baratoi'r tasgau.

Yn ystod yr amser paratoi gall yr ymgeisydd, os bydd yn dymuno, wneud nodiadau yn Almaeneg, Cymraeg neu Saesneg ar ddarn o bapur ar wahân, nid ar y cardiau. Gall yr ymgeisydd gyfeirio at y nodiadau hyn yn ystod yr asesiad. **Cymorth i'r cof** yw'r nodiadau ac **ni ddylent** gynnwys brawddegau cyfan neu destun cyflawn. Bydd darllen brawddegau cyfan neu destun cyflawn yn cael effaith wael ar natur ddigymell ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi'r nodiadau i'r arholwr ymweld ar ddiwedd yr asesiad. Bydd yr arholwr yn cadw'r nodiadau tan ddiwedd y cyfnod Adolygu'r Marcio.

Ar ôl y cyfnod paratoi bydd yr ymgeisydd yn treulio 5-6 munud ar gerdyn Set A (dadl) a 7-9 munud ar gerdyn Set B (trafodaeth) gyda'r arholwr. Gall yr ymgeisydd ddewis trefn y tasgau.

Rhaid cadw at yr amseru ar gyfer pob cerdyn ysgogi. Ni chaiff unrhyw dystiolaeth siarad sy'n mynd y tu hwnt i'r amser a ganiateir ei marcio.

Mae perfformiad ymgeiswyr yn dibynnu nid yn unig ar eu gallu eu hunain ond hefyd ar natur y cwestiynau mae'r arholwr ymweld yn eu gofyn. Felly cynghorir yr arholwr ymweld i ymgyfarwyddo â'r disgrifyddion ar y grid asesu a ddarperir ar gyfer y ddwy dasg hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y cwestiynau a ofynnir yn ymestyn ac yn herio'r ymgeiswyr ac yn rhoi'r cyfle iddynt gyflawni eu potensial a chyrraedd gofynion y cynllun marcio llawn.

**Uned 3 – Safon Uwch**

Wrth baratoi ar gyfer yr asesiad siarad bydd y dysgwr wedi cynnal project ymchwil annibynnol (gweler adran 2.2 am fanylion llawn). Cynhelir yr asesiad siarad mewn canolfannau gan arholwr ymweld a benodir gan CBAC. Bydd ef/hi yn cynnal ac yn marcio'r asesiad a gaiff ei recordio'n ddigidol.

Wrth baratoi ar gyfer yr asesiad siarad Safon Uwch rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen ymchwil annibynnol gan roi teitl eu project ymchwil a nodi hyd at 10 pwynt allweddol **yn Gymraeg/Saesneg.** Gellir llwytho'r **ffurflen** hon i lawr o'r dudalen pwnc ar wefan CBAC. Mae hefyd ar gael ar dudalen 26 o'r fanyleb hon. Pwrpas y ffurflen yw rhoi rhywfaint o wybodaeth ymlaen llaw i'r arholwr ymweld am y project ymchwil annibynnol a ddewiswyd gan yr ymgeisydd. Caiff y ffurflen ei hanfon gan y ganolfan at yr arholwr ymweld o leiaf tair wythnos **cyn** dechrau'r cyfnod asesu ym mis Ebrill. Er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth yn y ffurflen ar gyfer yr arholwr ymweld, gall athro'r ymgeisydd helpu i'w chwblhau. Ni fydd y ffurflen ei hun yn cael ei hasesu. Gall yr ymgeisydd ddod â chopi o'r ffurflen i'r asesiad siarad y gall ef/hi ei defnyddio fel proc i'r cof os bydd angen ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth. Cymorth i'r cof yn unig yw'r ffurflen ac **ni fydd** yn rhoi cymorth ieithyddol yn Almaeneg.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd yr asesiad yn cynnwys y canlynol:

**Tasg – Cyflwyniad a thrafodaeth ar broject ymchwil annibynnol yr ymgeisydd**

**(a)** Bydd pob ymgeisydd yn rhoi cyflwyniad llafar yn Almaeneg ar broject ymchwil annibynnol, a ddewisir gan yr ymgeisydd. Bydd y cyflwyniad yn para 2 funud. Os bydd y cyflwyniad yn para'n hirach na'r amser a neilltuwyd, bydd yr arholwr yn torri ar draws yr ymgeisydd gyda chwestiwn sy'n ymwneud â'r project ymchwil annibynnol. Bydd hyn yn nodi dechrau'r drafodaeth. Nid oes marciau ychwanegol ar gael ar gyfer cyflwyniad sy'n para mwy na 2 funud.

**(b)** Trafodaeth yn Almaeneg yn cynnwys ymatebion gan yr ymgeisydd i gwestiynau sy'n ymwneud a'i broject ymchwil annibynnol. Bydd yr arholwr ymweld yn gosod ac yn gofyn y cwestiynau. Bydd y drafodaeth yn para 9-10 munud ar y mwyaf.

**Cyflawni tasgau**

Cynhelir yr asesiadau siarad yn ystod cyfnod o bum wythnos rhwng Ebrill a Mai. Bydd yr arholwr ymweld yn cysylltu â chanolfannau yn uniongyrchol i drefnu ymweliad i gynnal yr asesiad. Bydd yr arholwr ymweld yn ystyried dyddiadau gwyliau ysgol yn ystod y cyfnod hwn wrth drefnu ymweliad. Fodd bynnag, dylai canolfannau gofio y bydd gan yr arholwr ymweld lawer o ganolfannau i'w harholi ac er mwyn helpu'r arholwr ymweld a bod yn deg â phawb, rhaid i ganolfannau fod yn hyblyg gyda dyddiadau.

Ar y diwrnod/diwrnodau y cynhelir yr asesiad, bydd pob ymgeisydd yn cyrraedd ar yr amser priodol ar gyfer yr asesiad siarad gyda'r arholwr ymweld. Ni fydd amser paratoi ffurfiol cyn dechrau'r asesiad.

Os yw'r ymgeisydd wedi dewis defnyddio copi o'r ffurflen project ymchwil annibynnol fel cymorth i'r cof, bydd ef/hi yn ei dangos i'r arholwr ymweld nawr, cyn i'r asesiad ddechrau. Mae hyn er mwyn sicrhau mai nodiadau Cymraeg/Saesneg yn unig sydd ar y copi. Bydd copi o ffurflen sydd â nodiadau mewn Almaeneg arni yn cael ei gadw gan yr arholwr ymweld ac ni fydd yr ymgeisydd yn cael edrych arni yn ystod yr asesiad.

Bydd yr asesiad yn dechrau gyda chyflwyniad yr ymgeisydd o'i broject ymchwil annibynnol a fydd yn para 2 funud ar y mwyaf. Yna, i ddilyn, bydd trafodaeth gyda'r arholwr ymweld yn seiliedig ar y project yn para tua 9-10 munud ar y mwyaf. Ar ddiwedd y drafodaeth ar y cyflwyniad, os yw ymgeisydd wedi defnyddio copi o'r ffurflen bydd yn ei rhoi i'r arholwr ymweld.

Rhaid cadw at yr amseru ar gyfer yr asesiad. Ni chaiff unrhyw dystiolaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r amser a ganiateir ei marcio.

© WJEC CBAC Ltd.

## Dilysu

Mae'n bwysig i'r **asesiad di-arholiad gael ei fonitro'n drylwyr gan y canolfannau i sicrhau mai'r ymgeiswyr eu hunain sydd wedi gwneud yr holl waith.**

Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi ffurflen project ymchwil annibynnol sy'n cadarnhau gwreiddioldeb ei ymchwil a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam cyfrifol i ddilysu hyn. Gellir gwella dilysrwydd gan gymryd sylw gofalus o'r pwyntiau canlynol:

- cadw cofnodion gofalus o gynnydd gwaith y dysgwr
- dylid ystyried yn ofalus p'un ai a yw'r gwaith a baratowyd yn nodweddiadol o allu'r dysgwr
- cadw unrhyw waith paratoadol wedi'i gloi'n ddiogel mewn cabinet neu gwpwrdd.

## Cydnabyddiaeth

Mae'n rhaid i gyfeiriad at ffynhonnell gael ei gydnabod yn glir ar y ffurflen project ymchwil annibynnol (gweler tudalen 26).

## Paratoi

Mae unrhyw arweiniad y gall athrawon ei roi yn ystod paratoad y project ymchwil annibynnol wedi'i gyfyngu i:

- addasrwydd y testun a ddewiswyd mewn perthynas â'r amcanion asesu
- gwirio nad yw'r project ymchwil annibynnol wedi cael ei ddyblygu o ran cynnwys, dull a chyflwyniad gan fwy nag un ymgeisydd
- cyfeirio ymgeiswyr at y sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno a thrafod eu project ymchwil annibynnol yn llwyddiannus (tudalennau 14-16 o'r fanyleb hon)
- cyfarwyddyd ar sut i ddod o hyd i a chyfeirio gwybodaeth briodol.

## Dulliau Ymchwil

Dylai'r ffynonellau fod yn ddilys ac yn Almaeneg. Gallant gynnwys erthyglau papur newydd a chylchgronau, ffynonellau ar-lein, adroddiadau, testunau llenyddol, ffilmiau, teledu, radio, cyfweliadau ac ati. Mae'n rhaid cyfeirio at unrhyw ffynonellau a ymchwiliwyd ar y ffurflen project ymchwil annibynnol.

© WJEC CBAC Ltd.

**SAFON UWCH ALMAENEG – Uned 3**

**Ffurflen Project Ymchwil Annibynnol – *fersiwn ar-lein ar gael***

| **Enw'r ymgeisydd** | **Rhif yr ymgeisydd** | **Enw'r Ganolfan** | **Rhif y ganolfan** |
|---|---|---|---|
| | | | |

*Rwyf yn tystio mai fy ngwaith i yw'r gwaith ymchwil a'r gwaith paratoi yr wyf wedi'i wneud ar gyfer Uned 3 Project Ymchwil Annibynnol ………………………………… (*Llofnod ymgeisydd)

| **Enw'r Athro** | **Llofnod yr Athro/Athrawes **** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| | | |

**Rwyf yn datgan mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith ymchwil a'r gwaith paratoi sydd wedi'i wneud gan yr ymgeisydd a enwir uchod gyfer Uned 3 Project Ymchwil Annibynnol. **Ni** chafodd ffug-arholiad llafar ei gynnal ac/neu ni roddwyd adborth ar y Project Ymchwil Annibynnol **byw.**

Ffilm a astudiwyd ar gyfer UG ………………………………………………………………..

Testun llenyddol a astudiwyd ar gyfer Safon Uwch ............…………………………….

**N.B. Mae'n rhaid i gopi o'r ffurflen hon gael ei anfon at yr arholwr ymweld dair wythnos cyn yr asesiad. Mae gan yr ymgeisydd hawl i ddod â chopi o'r ffurflen hon gydag ef/hi i'r asesiad ar yr amod nad oes nodiadau ychwanegol yn cael eu hychwanegu.**

| **Teitl y project ymchwil annibynnol:** |
|---|
| **Amlinelliad o'r project ymchwil annibynnol: (hyd at 10 pwynt allweddol yn Gymraeg/Saesneg yn unig)** |
| **Ffynonellau y cyfeiriwyd atynt: (dylid cynnwys teitl llawn y ffynhonnell gyda dyddiadau lle bo hynny'n bosibl)** |

**Dylai'r adran isod gael ei chwblhau gan yr arholwr ymweld**

| **Dyddiad yr asesiad:** |
|---|

Enw'r arholwr ymweld…………………………………………………...

Llofnod yr arholwr ymweld………………………………………………

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy’n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 a 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Unedau 3, 4 a 5 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Nodir y codau cofrestru isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Siarad | 282001 | 2820N1 |
| UG Uned 2 | Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ymateb beirniadol ysgrifenedig | 2820U2 | 2820N2 |
| U2 Uned 3 | Siarad | 1820U3 | 1820N3 |
| U2 Uned 4 | Gwrando, Darllen a Chyfieithu | 1820U4 | 1820N4 |
| U2 Uned 5 | Ymateb Beirniadol a Dadansoddol ysgrifenedig | 1820U5 | 1820N5 |
| Cyfnewid cymhwyster UG | | 2820QS | 2820CS |
| Cyfnewid cymhwyster Safon Uwch | | 1820QS | 1820CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

# 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd Uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r uned** | **Uchafswm marciau unffurf uned** | a | b | c | d | e |
| **Uned 1 (12%)** | 60 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| **Uned 2 (28%)** | 140 | 112 | 98 | 84 | 70 | 56 |
| **Uned 3 (18%)** | 90 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 |
| **Uned 4 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |
| **Uned 5 (12%)** | 60 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm marciau unffurf** | **A** | **B** | **C** | **Ch** | **D** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD A

**Cynnwys gramadegol, sy'n briodol i Almaeneg**

Bydd disgwyl i ddysgwyr fod wedi astudio'r system ramadegol a strwythurau'r iaith yn ystod eu cwrs. Cymerir yn ganiataol y byddant yn gyfarwydd â'r gramadeg a'r strwythurau a nodwyd ar gyfer TGAU. Yn yr arholiad bydd gofyn i ddysgwyr ddefnyddio, mewn ffordd weithredol a chywir, ramadeg a strwythurau sy'n briodol i'r tasgau a bennwyd, o'r rhestrau canlynol. Mae cyfeirio at eitem yn y rhestrau hyn yn awgrymu gwybodaeth am ei ffurfiau a'i swyddogaethau ar lefel briodol o gywirdeb a chymhlethdod. Mae'r enghreifftiau mewn llythrennau italig mewn cromfachau yn ddynodol; hynny yw, maent yn dangos y rhan ymadrodd neu'r strwythur y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu gwybod ac felly nid ydynt yn cynrychioli manyleb gynhwysfawr o'r wybodaeth ramadegol sy'n ofynnol. Ar gyfer eitemau a nodir (G), dim ond gwybodaeth oddefol sydd ei hangen.

## Safon UG

### Enwau

Cenedl
Ffurfiau unigol a lluosog
Dangos cyflwr enwau
Enwau gwrywaidd gwan

### Penderfynyddion

Y fannod
Y fannod amhendant, gan gynnwys *kein*
Rhagenwau dangosol, gan gynnwys *der/die/das*
Rhagenwau meddiannol
Penderfynyddion eraill (e.e. *alle*, *viel/viele, welcher*)

### Rhagenwau

Rhagenwau personol
Rhagenwau atblygol
Rhagenwau perthynol
Rhagenwau dangosol
Rhagenwau meddiannol
Rhagenwau amhendant (e.e. *jemand*)
Rhagenwau gofynnol (e.e. *wer*)

### Ansoddeiriau

Terfyniadau ansoddeiriol
Cymharol ac eithaf
Ansoddeiriau gyda'r cyflwr derbyniol (e.e. *es ist mir klar*)
Ansoddeiriau gydag arddodiaid (e.e. *stolz auf*)

© WJEC CBAC Ltd.

**Adferfau ac adferfolion**

Amser
Lle
Cyfeiriad (e.e. *hin*, *heraus*)
Dull
Gradd (e.e. *sehr*)
Gofynnol (e.e. *wann, warum)*
Cymharol ac eithaf
Rhifau a ffracsiynau
Amser y cloc, dyddiau'r wythnos, misoedd

**Ymadroddion Moddol/ Dynodwyr Mynegiant**

e.e. *ja*, *doch*, *wohl*

**Berfau**

Prif rannau berfau gwan, cryf ac afreolaidd
Berfau atblygol
Gwahanadwy/anwahanadwy
Berfau ategol (*haben, sein, werden*)
Defnyddio *haben* neu *sein* yn yr amser perffaith
Berfau moddol (*dürfen, können, mögen, müssen, sollen, wollen*): amserau presennol ac amherffaith; dibynnol amherffaith *mögen* a *können*
Cystrawennau berfenwol (*um… zu*, *ohne… zu*, berfau gyda *zu*)
Cystrawennau berfenwol (*lassen* a *sich lassen* gyda'r berfenwol)

**Amser, stâd a modd**

Presennol
Gorffennol (h.y. gorffennol syml/amherffaith)
Perffaith
Perffaith (berfau moddol) (G)
Gorberffaith
Dyfodol
Dyfodol perffaith (G)
Amodol
Amodol perffaith (G)
Goddefol gyda *werden*
Gorchmynnol
Dibynnol mewn cymalau amodol (gorffennol)
Dibynnol mewn cymalau amodol (gorberffaith) (G)
Dibynnol mewn araith anuniongyrchol (G)

**Arddodiaid**

Cyflwr sefydlog a chyflwr deuol
Adferfau arddodiadol (*da*(*r*)+arddodiad, e.e. *darauf*)

**Cysyllteiriau**

Cydraddol
Cymal isradd

© WJEC CBAC Ltd.

**Y system gyflyrau**

Y goddrych a'r ferf gyfyngedig
Gwrthrychau'r cyflwr gwrthrychol
Gwrthrychau'r cyflwr derbyniol
Gwrthrychau arddodiadol
Defnyddio'r cyflwr enwol gyda berfau cypladol (e.e. *sein, werden*, *bleiben*)

**Strwythur cymalau a threfn geiriau**

Trefn geiriau'r prif gymal
Cwestiynau a gorchmynion
Safle rhagenwau
Safle adferfolion
Safle *nicht*
Amrywio trefn geiriau i newid pwyslais
Is-gymalau a gyflwynir gan gysylltair (e.e. *dass*, *obwohl*)

**Ffurfio geiriau**

Enwau cyfansawdd
Ffurfio enwau o ferfau
Ffurfio enwau o ansoddeiriau
Ffurfio berfau o enwau
Ffurfio berfau o ansoddeiriau
Rhagddodiaid berfau gwahanadwy ac anwahanadwy

## Safon Uwch

Yr holl ramadeg a strwythurau a restrir ar gyfer safon UG, yn ogystal â'r canlynol:

**Ansoddeiriau**

Defnyddio ymadroddion ansoddeiriol hir (G)

**Amser, stâd a modd**

Perffaith (berfau moddol)
Dyfodol perffaith
Amodol perffaith
Brawddeg amodol gyda *wenn* wedi ei hepgor, e.e. *Hätte ich mehr Zeit gehabt, wäre das nicht passiert* (G)
Goddefol gyda *sein*
Dibynnol mewn cymalau amodol (gorberffaith)
Pob math o araith anuniongyrchol

**Strwythur cymalau a threfn geiriau**

Defnyddio'r adferf arddodiadol (*da*(*r*)+arddodiad, e.e. *darauf*) i ragweld cymalau *dass* a chymalau berfenwol dibynnol (G)



© WJEC CBAC Ltd.